Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Llanfechell
# Llanfechell
# Amlwch
# LL68 0SA

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Llanfechell

Lleolir Ysgol Gymuned Llanfechell ar gyrion y pentref yng ngogledd Ynys Môn. Daw'r disgyblion o'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 70 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 oed meithrin. Mae tri dosbarth oed cymysg yn yr ysgol.

Tros y tair blynedd ddiwethaf, tua 18% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n gyfartal â'r canran cenedlaethol. Mae tua 75% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 10% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sef 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2014 ac mae'r pennaeth mewn gofal yn ei swydd ers Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar i'r disgyblion. Nodwedd arbennig yw'r ethos teuluol sy'n bodoli i sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn meddu ar agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn dda ac, o ganlyniad, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw disgwyliadau'r staff o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn gyson. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol i sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, a disgwyliadau uchel ar gyfer lles a chyflawniad yr holl ddisgyblion. Mae wedi cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. Yn yr amser byr ers ei phenodiad, mae wedi dod i adnabod cryfderau'r ysgol a'r prif feysydd sydd angen eu gwella yn dda. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw gweithdrefnau monitro wedi bod yn ddigon trylwyr ac nid yw arweinwyr wedi gweithredu'n ddigon cyflym i fynd i'r afael ag agweddau pwysig sydd angen eu gwella.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob un o’r athrawon yn herio’r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau ynglŷn â’u dysgu a datblygu medrau dysgu annibynnol

A3 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

A4 Gwella agweddau o fedrau TGCh disgyblion

A5 Cryfhau gweithdrefnau monitro a chynlluniau gwella’r ysgol i ganolbwyntio’n gadarn ar wella deilliannau disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Fodd bynnag, ar adegau, cyfyng yw'r cynnydd y mae ychydig o'r disgyblion sy'n fwy abl yn ei wneud.

Mae medrau cyfathrebu llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud mewn sesiynau torfol ac yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau athrawon wrth iddynt ymgymryd â'u tasgau. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn siarad yn gywir yn y Gymraeg ac yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae diffyg geirfa a chystrawen chwithig yn amharu ar hyder ychydig o'r disgyblion i gyfathrebu'n hyderus wrth drafod eu gwaith. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn Saesneg ac yn trafod eu gwaith yn ddeallus a chydag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa ymestynnol a chyfoethog, er enghraifft wrth drafod amodau gwaith plant tlawd yn ystod Oes Fictoria.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn effeithiol. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen o'u gwaith gyda dealltwriaeth gadarn. Maent yn trafod prif ddigwyddiadau stori ac yn mynegi barn am yr hyn y maent wedi ei ddarllen. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio'n synhwyrol at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau y maent yn eu darllen. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cyfeirlyfrau a'r we, er enghraifft wrth ddysgu sut mae anifeiliaid yn addasu i'w cynefin.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft wrth ailadrodd stori Mari Jones a'i Beibl, neu wrth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol am yr adar sydd i'w gweld yn yr ardal leol. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu am brofiadau plant mewn ysgolion ar draws y byd. Maent yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad mathemategol. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o strategaethau rhif ac maent yn eu defnyddio'n hyderus i ddatrys problemau ar draws y meysydd dysgu, wrth drin arian yn gywir wrth chwarae rôl yn swyddfa bost y dosbarth neu wrth helpu Rala Rwdins yn y parlwr hufen iâ. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac, erbyn

Blwyddyn 6, maent yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen a dulliau cofnodi. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth ddarganfod faint o arian y gallant ei arbed wrth brynu nwyddau mewn sêl. Maent yn cymhwyso'r hyn y maent yn ei ddysgu mewn gwersi mathemateg yn hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth ddefnyddio graddfa ar fap i drefnu bws cerdded i'r ysgol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol i gofnodi eu gwaith, ac yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn gynyddol hyderus i gyflwyno gwybodaeth am bwysigrwydd edrych ar ôl ein byd, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ymchwilio'n ddiogel ar y we, er enghraifft i gefnogi eu gwaith ar anifeiliaid y goedwig law. Maent yn defnyddio pecynnau masnachol addas i wneud cyflwyniadau amlgyfrwng o'u gwaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni, ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryder sydd ganddynt. Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos parch yn eu hysgol a'u cymuned. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r ffordd garedig ac annwyl iawn y mae llawer o'r disgyblon hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau yn ystod amser egwyl a chinio. Mae ymddygiad bron pob un disgybl mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Maent yn symud yn dawel a phwyllog o gwmpas yr ysgol.

Mae agweddau rhan fwyaf y disgyblion tuag at eu dysgu yn gadarn. Maent yn barod i ddysgu, yn dangos cymhelliant yn eu gwaith ac yn ymroi'n ddiwyd i'w tasgau. Mae llawer yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig a gweithgar sy'n gweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Ar frig yr ysgol, mae bron pob un yn canolbwyntio'n dda, ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau newydd. Maent yn dangos diddordeb a balchder yn eu gwaith, ac yn gwneud penderfyniadau rheolaidd am sut a beth y maent yn ei ddysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos aeddfedrwydd wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac maent yn adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

Mae llais y disgybl, trwy waith pwyllgorau'r ysgol, yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion yn dechrau ymgymryd â'u gwaith fel aelodau o'r cyngor ysgol, gan arddangos dealltwriaeth dda o'u rolau wrth gynrychioli safbwynt eraill o fewn cymuned yr ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd a gânt i ddatblygu agweddau o waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y cyngor eco wrth gydweithio â naturiaethwr i ddatblygu'r ardal allanol

Mae cysylltiadau agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae bron pob un disgybl yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y caffi cymunedol, er enghraifft, ac yn cymdeithasu â henoed y pentref i ddysgu am hanesion yr ardal. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cynefin

yn ddeallus, ac yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a chydwybodol. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n gyson at weithgareddau i godi arian at elusennau ac yn cyfrannu tuag at y banc bwyd lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill.

Mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau chwaraeon o fewn yr ysgol, ac yn allgyrsiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac mae cyfraddau presenoldeb wedi codi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er hyn, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn ei gosod ychydig o dan y cyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae staff yn sefydlu perthynas waith agos â'r disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra byddant wrth eu gwaith ac yn rhyngweithio â'u cymheiriaid.

Mae athrawon yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i'w disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb ac yn bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio themâu trawsgwricwlaidd sy'n hybu'r dysgu ac, ar y cyfan, yn ategu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n gadarn yn nosbarth ieuengaf y cyfnod sylfaen. Mae pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol iddynt. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i feddwl drostynt eu hunain o oed ieuanc iawn. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws priodol i ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen ond prin yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau annibynnol trwy weithgareddau parhaus. Mae oedolion yn aml yn arwain gormod ar y gweithgareddau ac, o ganlyniad, yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau penodol ynglŷn â'u dysgu. Prin yw'r defnydd o'r ardal allanol i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol y disgyblion hyn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni anghenion llawer o'r disgyblion yn llwyddiannus. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu fwyaf effeithiol, mae athrawon yn paratoi tasgau ysgogol, sy'n ymateb i anghenion yr holl ddisgyblion ac mae cyflwyniadau'r athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn atgoffa'r disgyblion yn effeithiol am eu dysgu blaenorol ac yn cyflwyno amcanion dysgu a chyfarwyddiadau clir iddynt. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd cynyddol a gwerthfawr i ddisgyblion wneud penderfyniadau pwysig mewn perthynas â'u gwaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hagwedd tuag at eu dysgu. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o gwestiynau pen-agored, sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn synhwyrol, er enghraifft wrth iddynt egluro sut maent yn mynd ati i ddatrys problemau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau'n frwdfrydig ac yn

annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw disgwyliadau'r staff ym mhob dosbarth o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn gyson. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am nodweddion eu hardal, ynghyd â hanes a diwylliant Cymru, trwy ddarparu iddynt ystod o weithgareddau buddiol yn yr ysgol a thrwy drefnu ymweliadau addas iddynt i fannau diddorol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 ar nodweddion ardal o brydferthwch naturiol eithriadol ym mae Cemlyn. Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio arbenigedd ymwelwyr i gyfoethogi profiadau disgyblion. Trwy drefnu i aelodau o'r gymuned fu'n gyn-ddisgyblion drafod eu profiadau ysgol gyda'r disgyblion presennol, mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu sut mae profiadau ysgol plant wedi newid dros amser. Yn dilyn ymweliad â melin Llynnon yng nghwmni bardd, mae disgyblion wedi eu sbarduno i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol trwy gyfansoddi eu cerddi eu hunain. Mae hyn yn datblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn effeithiol, ac yn hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o'u cynefin ac o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth yr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth gaffael yr iaith, a'i defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. Ar y cyfan, mae'r staff yn modelu iaith lafar gywir i'r disgyblion yn y Gymraeg, o fewn gwersi ac ar adegau eraill. Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio'n ddigon cyson ar gyfleoedd i fireinio a chyfoethogi iaith lafar disgyblion yn gyson. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ac, o ganlyniad, maent yn eu defnyddio'n hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'r medrau hyn yn hyderus, er enghraifft wrth gyfrifo cost adeiladu ysgol yn Affrica. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn sicrhau digon o gyfleoedd i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso'r holl ystod o fedrau yn rheolaidd.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod gwersi gyda llawer yn cynnig adborth gwerthfawr i'w galluogi i wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ar frig yr ysgol fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau. O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith a'u cynnydd ac yn trafod hyn yn ddeallus. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o waith yr ysgol ac yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r staff yn dathlu llwyddiannau personol unigolion yn gyson. Maent yn eu canmol yn gyhoeddus am eu hymdrechion dyddiol â'u gwaith cartref mewn sesiynau torfol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, sy'n helpu i ddatblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a dysgu am egwyddorion crefyddau amrywiol, mae’r staff yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i’r disgyblion brofi elfennau ysbrydol a moesol. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau dynol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu’n unigolion moesol a gwybodus. Mae’r ysgol yn weithgar iawn yn y pentref a’r gymuned ehangach ac yn annog disgyblion yn gyson i ddangos balchder yn eu hysgol a’u cymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw’r ymweliadau niferus a wnânt â Chaffi Mechell er mwyn cyfrannu at weithgareddau cymunedol i gyfoethogi profiadau’r disgyblion. Mae’r cysylltiadau amrywiol hyn yn cryfhau ymdeimlad y disgyblion o berthyn i’r gymuned, ac yn datblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’u hardal leol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn effeithiol. Gwneir defnydd helaeth o ymwelwyr fel beirdd, cerddorion ac awduron i gyfoethogi profiadau creadigol disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad diweddar awdur lleol i gydweithio â’r disgyblion ieuengaf i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i ysgrifennu stori greadigol. Mae ymweliadau fel cwmnïau dawns i feithrin medrau perfformio disgyblion yn cyfrannu’n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer ohonynt a’u gallu i gydweithio’n effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio ohoni yn effeithiol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion personol y disgyblion yn gynnar ac i ddarparu cymorth amserol a phwrpasol iddynt. Er hyn, nid yw’r wybodaeth hon bob amser yn cael ei defnyddio’n llawn i sicrhau bod disgyblion sy’n uwch eu gallu bob amser yn cyflawni i safon briodol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae’r cymorthyddion yn gweithio’n fedrus a chydwybodol i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol iddynt. Enghraifft dda o hyn yw’r ymyrraeth lwyddiannus a defnyddir i ddatblygu gallu grŵp penodol o ddisgyblion i adalw tablau lluosi mewn mathemateg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun datblygu unigol pwrpasol. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu’n rheolaidd gyda’r disgyblion, yr athrawon a’r rhieni. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion ac er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad pellach i staff a rhieni.

Mae’r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni. Caiff y rhieni eu hysbysu’n rheolaidd drwy lythyron, negeseuon testun a chyfryngau cymdeithasol am weithgareddau a digwyddiadau’r ysgol yn ogystal â themâu’r tymor. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored sy’n bodoli, sy’n sicrhau eu bod yn cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. O ganlyniad, mae’r rhieni’n teimlo’n rhan o’r ysgol ac yn cydweithio’n effeithiol â’r staff. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi newid y drefn o ddarparu gwaith cartref i sicrhau amrediad o dasgau sy’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â’u dysgu. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at ymroddiad parod y disgyblion i’w gwaith, ac yn sicrhau bod rhieni’n fwy ymwybodol o beth allent ei wneud i gefnogi eu plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cynnwys siop ffrwythau iach, y mae disgyblion yn helpu ei rhedeg. Mae’r ysgol yn darparu ystod amrywiol o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol fel dawns, gymnasteg a chyfeiriannu sy’n cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu eu gallu i gydweithiol a datblygu eu ffitrwydd. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gan y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd â ffocws cadarn ar ddarparu gweithgareddau cyfoethog a diddorol o fewn ethos gofalgar a theuluol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer lles a chyflawniad yr holl ddisgyblion. Mae wedi cyfleu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus i’r staff, y llywodraethwyr a’r rhieni. Yn yr amser byr ers ei phenodiad, mae’r pennaeth wedi dod i adnabod yr ysgol yn dda. Mae’n ymwybodol o’i chryfderau ac wedi adnabod agweddau allweddol ar gyfer datblygu’r ysgol, sy’n canolbwyntio’n glir ar wella ansawdd yr addysgu a sicrhau cysondeb y ddarpariaeth. Mae eisoes wedi rhoi nifer o strategaethau gwella ar waith i wella trefniadau diogelwch, cryfhau’r berthynas â rhieni a mireinio’r gweithdrefnau rheolaethol. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at les ddisgyblion.

Mae’r staff yn ymroddgar ac yn cydweithio’n agos fel tîm, gan ymgymryd â’u dyletswyddau yn gydwybodol i sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i’w gwaith. Mae cymorthyddion ymroddgar yn cynnig cefnogaeth effeithiol sy’n dylanwadu’n sylweddol ar brofiadau disgyblion, er enghraifft trwy ddarparu ymyraethau darllen a rhifedd a chyfoethogi’r profiadau dysgu.

Mae’r ysgol, dros amser, wedi ymgymryd ag ystod addas o weithgareddau hunanwerthuso. Mae’r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, a chraffu ar eu gwaith. Mae arweinwyr wedi gwneud defnydd priodol o’r wybodaeth hon i adnabod cryfderau’r ysgol ac i nodi blaenoriaethau gwella defnyddiol fel yr angen i wella iaith lafar disgyblion yn y Gymraeg a datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu cytûn. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw’r monitro wedi bod yn ddigon trylwyr ac nid yw arweinwyr wedi gweithredu’n ddigon cyflym i fynd i’r afael ag agweddau pwysig sydd angen eu gwella, fel sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu a gwella medrau TGCh disgyblion.

Mae’r pennaeth wedi dechrau hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn fwriadus ac wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae amcanion gwella’r athrawon yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau’r ysgol ac maent yn mynd i’r afael ag anghenion datblygiad personol y staff. Mae’r pennaeth wedi dechrau darparu cyfleoedd bwriadus i staff rannu arfer dda o fewn yr ysgol trwy graffu ar lyfrau ar y cyd. Mae hyn eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd adborth athrawon i’w disgyblion ac yn eu defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur yr effaith y strategaeth hon ar ddeilliannau disgyblion.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i’r ysgol a dangosant falchder mawr ohoni. Maent yn cyfrannu'n fwriadus at osod cyfeiriad strategol i’r ysgol trwy gydweithio â’r awdurdod lleol i newid trefniadau’r arweinyddiaeth. Trwy ymweliadau cyson a theithiau dysgu, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol ac

am rai o’r agweddau sydd angen eu gwella.  Fodd bynnag, dros gyfnod, cyfyng yw eu cyfraniad at weithgareddau hunanwerthuso.  Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddwyn yr ysgol i gyfrif am gyrhaeddiad disgyblion, yn arbennig y rhai uwch eu gallu.

Mae’r ysgol yn ymateb yn briodol i rai blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft i ddatblygu defnydd disgyblion o’r iaith Gymraeg.  Mae athrawon wedi ystyried gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru, ac maent yn cynnig cyfleoedd cynyddol i  ddisgyblion  ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu.  Enghraifft dda o hyn yw’r modd mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn creu eu llwybrau dysgu eu hunain.  Fodd bynnag, nid yw’r ysgol wedi ystyried gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol er mwyn mynd i’r afael â’r bylchau yn ei darpariaeth bresennol.

Mae arweinwyr yn monitro gwariant yn ofalus i sicrhau bod gan yr ysgol gyflenwad addas o adnoddau da i gefnogi dysgu’n effeithiol yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm.  Mae'r ysgol wedi cofnodi diffyg ariannol sylweddol eleni ac, o ganlyniad, mae arweinwyr wedi cytuno ar gynllun priodol i leihau hyn gyda’r awdurdod lleol.  Gwna’r ysgol ddefnydd priodol o’r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2020